# Camau Gweithredu Cyfarfod

Partneriaeth **Bioamrywiaeth** Cymru
Wales **Biodiversity** Partnership

| | |
|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod:** | **Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 5 Hydref 2021 **Lleoliad:** MS Teams |
| **Amser y cyfarfod:** | 10.00 – 12.00 |
| **Yn bresennol:** | **Llywodraeth Cymru:** Leasa Fielding (Cadeirydd), Tom Warren, Becky Phillips,<br>**Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru:** Michaela Scrivin (ysgrifenyddiaeth)<br>Arall: Ben Rowson (Amgueddfa Cymru), Bradley Welch (BIS), Chloe Powell-Jennings (CNC), Chris Tucker (CNC), David Jermyn (BBNPA), Dawn Thomas (NWWT), Debbie Murphy (CEFAS), Gareth Thomas (CNC), Gemma Williams (Dŵr Cymru), Jennie Jones (CNC), Joanne Cable (Prifysgol Caerdydd), Laura Jones (TrC), Max Jones (WaREN), Olaf Booy (APHA), Phil Stone (Canŵ Cymru), Robert Smith (Iechyd Cyhoeddus Cymru), Sean Hathaway (Cyngor Abertawe), Theresa Kudelska (CNC), Tomos Jones (WaREN) |
| **Ymddiheuriadau:** | Adrian L Jones (NWWT), Alison Smith (LlC), Beverley Lewis (BBNPA), Caroline Orr (Gwy a Wysg), David Thorpe (CNC), Judith Oakley (Cyngor Sir Abertawe), Katie Havard-Smith (Prifysgol Caerdydd), Louis Macdonald-Ames (Gwy a Wysg), Niall Moore (APHA), |


Diweddariad WaREN
Diweddariadau gan Bartneriaid
Prosiect Arolygiaeth GBNNS
Unrhyw fater arall


## TROSOLWG O GAMAU GWEITHREDU

| Cam gweithredu | Dan arweiniad | Cyfnod | Diweddariad |
|---|---|---|---|
| 1. Michaela i gysylltu â Kate Rodgers ar gyfer diweddariad ar fathodyn INNS, rhannu gwybodaeth gyda'r grŵp | Michaela Scrivin | | |
| **Diweddariad WaREN**<br>2. Aelodau'r grŵp i gysylltu â Tomos Jones os ydynt am gyfrannu at wefan prosiect WaREN a'r strategaeth bioddiogelwch ac ati | Aelodau â diddordeb i gysylltu â Tomos Jones | | |

| Cam gweithredu | Dan arweiniad | Cyfnod | Diweddariad |
|---|---|---|---|
| **Diweddariadau gan bartneriaid**<br>3. Unrhyw ddiweddariadau gan bartneriaid pellach at Michaela erbyn diwedd mis Tachwedd | Pawb i e-bostio Michaela | | |
| **Sgwrs – Arolygiaeth GBNNSS**<br>4. Dim camau'n codi. | | | |
| **Unrhyw fater arall / Camau nesaf**<br>5. Bydd cyfarfod Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn cael ei drefnu ar gyfer mis Medi/Hydref 2021 | Michaela Scrivin | | Wedi gwneud |

## PRIF BWYNTIAU A CHAMAU GWEITHREDU

Croesawodd Leasa Fielding bawb i'r cyfarfod gan nodi ymddiheuriadau. Cafodd rhestr camau gweithredu'r cyfarfod diwethaf ei hadolygu:

**Rhestr camau gweithredu o gyfarfod mis Mawrth 2021**

1. Cysylltu â Jennie Jones am gopïau caled o 'Edrych, Golchi, Sychu'. **Wedi gwneud**.
2. Cysylltu â Kate Rodgers os hoffech gopïau caled o ganllawiau INNS Gwastadeddau Gwent. **Wedi gwneud**.
3. Kate Rodgers i rannu gwybodaeth am fathodyn INNS gyda Gemma Light. **Wedi gwneud**.
4. Cysylltu â Kate Rodgers os ydych chi'n defnyddio unrhyw ddarparwyr heblaw Coleg Gwent ar gyfer hyfforddiant PAW/PAW6. **Wedi gwneud**
5. Llyfrothen uwchsafn: Phil Stone, Gareth Thomas a Rhys Jones i siarad am opsiynau bioddiogelwch ar gyfer ardaloedd dyfrol llyfrothod uwchsafn. **Parhaus**
6. Rhys Jones i e-bostio Jo Cable gyda gwybodaeth am fonitro dŵr croyw CNC.
7. Bydd cyfarfod Grŵp INNS Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn cael ei drefnu ar gyfer hydref 2021. **Wedi gwneud**

## Prosiect WaREN: Diweddariad Cam 2

Cyflwynodd Rheolwr y Prosiect, Thomas Jones ei hun a Max Jones Swyddog Prosiect y Gogledd a Jess Minett, Swyddog Prosiect y De. Wedi'i ariannu tan Ebrill 2023, nod yr ail gam yw hyrwyddo bioamrywiaeth a chadernid ecolegol drwy ddatblygu dull cydweithredol a chynaliadwy o reoli INNS ledled Cymru.

- Roedd WaREN 1 wedi cyflawni sawl gweithred allweddol.
  - Ymgysylltu â rhanddeiliaid fel grwpiau gweithredu lleol (LAGs) i nodi bylchau, rhwystrau a chyfleoedd
  - Dadansoddi effeithiau rhywogaethau goresgynnol a'u dosbarthiad yng Nghymru

  - Roedd yn cwmpasu amrywiaeth o becynnau cymorth ac offer adrodd ar gamau gweithredu.

- Mae amcanion WaREN 2 yn cynnwys:
  - Datblygu ffrwd ariannu gynaliadwy
  - Astudiaethau dichonoldeb ar gyfer dulliau arloesol o fynd i'r afael â rhywogaethau â blaenoriaeth
  - Creu rhwydwaith cydweithredol o randdeiliaid
  - Meithrin cysylltiadau rhwng prosiectau presennol
  - Sefydlu fforwm ar-lein i rannu gwybodaeth ac arferion gorau
  - Ymgysylltu â grwpiau gweithredu lleol: i ddatblygu cysylltiadau rhwng grwpiau, cefnogi a hwyluso ffurfio LAGs cynaliadwy, cynnal cymorthfeydd amserol, datblygu gwefan y prosiect, darparu hyfforddiant a phecynnau cymorth
  - Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd drwy weithio gydag asiantaeth i ddatblygu brand prosiectau, a siarter i sefydliadau gofrestru ar ei chyfer
  - Cynnal ymgyrch rhywogaethau goresgynnol yn ystod gwanwyn 2022 i gynyddu ymwybyddiaeth o INNS a bioddiogelwch

- Porth ar-lein INNS – adroddiad cwmpasu
  - Angen porth sy'n hawdd ei ddefnyddio i gofnodi holl INNS Prydain
  - Pam? Adeiladu tystiolaeth, tryloywder, er mwyn cyfathrebu a chydweithio gwell, dealltwriaeth well o'r cynlluniau rheoli gorau
  - Strategaeth Cymru: rhagweithiol vs adweithiol, ymgyrchoedd ar lefel Prydain, negeseuon allweddol
  - Cynnydd presennol: nodi blaenoriaethau atal a bioddiogelwch, gan weithio gyda phartneriaid, pennu nodau ac amcanion allweddol strategaeth
- Pecyn Cymorth – adroddiad cwmpasu
  - Porth ar y rhyngrwyd gyda gwybodaeth ar gyfer llawer o rywogaethau gwahanol, cymorth a gwybodaeth dechnegol, deddfwriaeth, wedi'i ddiweddaru'n rheolaidd
  - Amlinelliad ar gyfer chwe adran arfaethedig: INNS cyffredinol, gwybodaeth, rheoli INNS, offer cynllunio prosiect, bioddiogelwch, codi ymwybyddiaeth a chyfathrebu, cyngor ac arweiniad
  - Cynnydd presennol: cronni adnoddau sydd eisoes ar gael, a datblygu adnoddau newydd fel canllawiau adnabod INNS a rheoli arferion gorau, gwybodaeth am blaladdwyr, cronfa ddata ariannu, pecyn bioddiogelwch

**Pwyntiau trafod**

- Jo Cable: a fydd yr ymgyrch yn ymestyn i ficrobau a phathogenau eraill? Cynnwys gwybodaeth a ffyrdd o stopio plâu rhag lledu os oes modd e.e. Edrych, Golchi, Sychu
- Leasa: Sut gall aelodau'r grŵp gyfrannu at y strategaeth bioddiogelwch? Mae modd cysylltu â Tomos Jones (Tomos.Jones@northwaleswildlifetrust.org.uk)
- Sean Hathaway: Sut fydd diogelwch gwybodaeth yn cael ei drin? Mae'n hawdd camddefnyddio gwybodaeth ddefnyddiol, mae Abertawe wedi cael hawliadau yswiriant 'no win no fee'. Bydd Tomos yn ystyried hyn wrth symud ymlaen.
- Chloe: ydy rhywogaethau morol wedi'u cynnwys? Na, dim ond dŵr daearol a chroyw

- Phil Stone: Mae gan Canŵ Cymru ddiddordeb ond nid grŵp gweithredu 'lleol' ydyn nhw mewn gwirionedd - trafodaeth bellach am gyfleoedd all-lein.

Camau gweithredu: Pawb i gysylltu â Tomos Jones os oes gennych ddiddordeb mewn helpu gyda'r strategaeth bioddiogelwch.

## Diweddariadau gan Bartneriaid

Diweddariadau ysgrifenedig a rannwyd cyn y cyfarfod. Mae'r pwyntiau ychwanegol yn cynnwys:

- **Amgueddfa Cymru**. Cynhaliwyd gweithdy INNS morol ym Mhwllheli ar 23 Hydref mewn cydweithrediad â CNC a NWWT.
- **Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog:** wedi canfod tarddiad Jac y Neidiwr yn rhan uchaf afon Tawe a rhan uchaf afon Wysg, sydd bellach yn dechrau cael ei reoli
- **CEFAS**: Prosiect yn edrych ar wella gwyliadwriaeth INNS morol gydag e.e., eDNA, Debbie i gysylltu â Chloe parthed tebygrwydd i waith Moroedd Byw.
- **GBNNSS**. Cynlluniau gweithredu llwybrau yn parhau. Is-grŵp garddwriaethol sy'n edrych ar blanhigion a halogyddion. Ymchwilio i lun o lewbysgodyn coch, ond ddim yn credu ei bod yn rhywogaeth sy'n gallu sefydlu yn nyfroedd Prydain. Cyflwynwyd adroddiad ar strategaeth GBNNSS i DEFRA, sydd bellach yn ceisio adnewyddu strategaeth 2015
- **Canolfannau Cofnodion Amgylchedd Lleol (LERCs).** Edrych ar gysylltedd amgylcheddol o ran INNS.
- **Moroedd Byw NWWT**.
- **CNC.** Canolbwyntio ar gefnogi gwreiddio'r gorchymyn IAS, a chamau gweithredu mewn perthynas â strategaeth Prydain. Dwy swydd FTA wedi'u hymestyn (Swyddogion Bioddiogelwch a Llyfrothod Uwchsafn). Cyhoeddi pennod SoNNaR ar wefan CNC.
- **Ardal Gadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau**: Gweithio gyda phrifysgol Aber ar hyfywedd defnyddio eDNA i nodi presenoldeb INNS morol, ac ychwanegu INNS morol at ap adroddiad dalfeydd pysgotwyr. Wedi cynnal gweithdy bioddiogelwch gyda rhanddeiliaid ym mis Mehefin. Dal i weithio ar ganllawiau adnabod INNS morol
- **Trafnidiaeth Cymru.** Dal i ymdopi â llawer o INNS ar ochr y cledrau, gan edrych i leihau'r defnydd o blaladdwyr lle bo hynny'n bosibl. Edrych ar blanhigion clymog Japan mewn ardaloedd trefol yn arbennig ar ôl i Network Rail gael ei erlyn yn llwyddiannus.
- **Dŵr Cymru:** Ymgynghorydd Cadwraeth Newydd ar waith yn fuan, wrthi'n datblygu datganiad sefyllfa ar gyfer prosesau ffurfiol, a datblygu strategaeth bioamrywiaeth ehangach gydag elfennau INNS hefyd.

**Camau gweithredu**: Os na lwyddoch i anfon diweddariad partner at Michaela cyn y cyfarfod, mae croeso i chi wneud hynny erbyn diwedd mis Tachwedd a gellir cynnwys hyn gyda'r cofnodion pan gânt eu rhannu.

## Prosiect Arolygiaeth GBNNS

Siaradodd Iain Henderson, APHA, am y prosiect cwmpasu peilot hwn ar gyfer creu arolygiaeth INNS bwrpasol. Bydd ei gyflwyniad yn cael ei ddosbarthu gyda'r cofnodion.

- Ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Defra.
- Holodd Max Jones am y targed o 5% i Gymru, mae gwaith arfaethedig yng Nghymru yn cynnwys ymweld â chanolfannau garddio a sŵ er mwyn helpu i ddeall anghenion Cymru. Mae Bethan (CNC) hefyd yn edrych ar borthladdoedd Cymru (dim porthladdoedd dynodedig, ond mae Abertawe yn derbyn cynnyrch pren), gyda'r nod o gwrdd a chymharu nodiadau.
- Gan nad oedd prosesau a chysylltiadau yn glir yn gynharach, dywedodd Olaf fod cael cyswllt/proses hysbys ar gyfer adrodd pryderon yn arwain at greu mwy o gysylltiadau ehangach wedyn.

## Unrhyw fater arall

- Cynhaliwyd Cynhadledd Ar-lein Troseddau Bywyd Gwyllt ganol mis Hydref.
- Bydd deddfwriaeth newydd i gwmnïau sy'n arddangos anifeiliaid yn dod i rym, gyda thrwyddedau'n cael eu rhoi a'u gorfodi gan awdurdodau lleol.
- Mae rheoleiddio IAS yn golygu bod angen cynnal adolygiad o'r 'Rhestr o rywogaethau o bryder arbennig' i weld a oedden nhw'n golygu meini prawf newydd. Gwybodaeth bellach y flwyddyn nesaf – gallai rhywogaethau nad ydynt yn gallu sefydlu ym Mhrydain ddod oddi ar y rhestr (rhaid eu bod wedi gallu sefydlu yn yr UE gynt).
- Cyfarfod nesaf i'w drefnu ar gyfer mis Mawrth/Ebrill 2022.